Site Stakeholder Group

**Summary of Key points from the**
**Wylfa Site Stakeholder Group Meeting 12 September 2019**

1. Nominations were read and the Chair, Cllr Aled Morris Jones, and Vice Chair, Cllr Derek Owen, were duly elected as it was not contested.

2. The Chairman updated members on his SSG activities since 31 January 2019 referring to:

- The NDA National Stakeholder Summit at Coleg Menai 9 & 10 of July 2019. The first time the NDA Summit has been held on Ynys Môn. It was a very successful event where delegates from far and wide were able to see the resources here on Anglesey.
- Discussions are ongoing with the NDA regarding the future stewardship of Cestyll Gardens, Cemaes.
- Attended Magnox socio-economic scheme grant funding panel meetings.
- Attended briefings with the Wylfa Site Director
- Instigated the drafting of a Magnox, National UK covenant, the social licence to operate in the communities surrounding the various sites, in my role as Chair of the UK NDA SSG Forum.
- The new members present representing Rhosybol and Llaneilian Community Councils.

3. Stuart Law presented the Site Director's Report drawing particular attention to:

- Site operations and key projects
- The site's transition from defuelling to the 'Care & Maintenance Preparations' phase.

4. NDA Report presented by Jonathan Jenkin.

5. ONR report presented by Ian Dallas.

6. An update on recipients of the Magnox socio-economic scheme presented by Mair Jones.

.

Site Stakeholder Group

# Minutes of the Wylfa Site Stakeholder Group
# Thursday 12 September 2019, David Hughes Village Hall, Cemaes

**Present:**

| | |
|---|---|
| Cllr Aled M Jones | IoACC Twrcelyn Ward and SSG Chair |
| Stuart Law | Wylfa Site Director, Magnox |
| Mair Jones | Magnox Socio Economic Lead, Wales & Scotland |
| Michelle Humphreys | Magnox Regional Communications Lead, Wales |
| Cllr Dafydd Griffiths | Llanelian Community Council |
| Cllr John Griffiths | Llanelian Community Council |
| Bill Hamilton | Communications & Stakeholder Relations Director, Magnox |
| Roy Chape | Dŵr Cymru/Welsh Water |
| Enid Jones | Merched y Wawr |
| Cllr Derek Owen | Llanbadrig Community Council |
| Cllr Gwilym O Jones | IoACC |
| Cllr Gwilym Morris | Rhosybol Community Council |
| Mark Elsworth | Magnox |
| Cllr Gareth W Roberts | Amlwch Town Council |
| Cllr Ken Hughes | IoACC Talybolion Ward |
| Cllr Gordon Warren | Amlwch Town Council |
| Cllr John Griffiths | IoACC |
| Ifer Gwyn | Horizon Nuclear Power |
| Steve Roberts | Horizon Nuclear Power |
| Ian Dallas | ONR |
| Tom Conway | Wylfa Retirees Association |
| Dylan Jones | IoACC |
| Jonathan Jenkin | NDA |
| Rhun ap Iorwerth | Assembly Member |
| Ann Llwyd | Translator – Cymen |
| Sydna Roberts | Minute taker – Cymen |

**Apologies:**

| | |
|---|---|
| Llinos M Huws | IoACC Talybolion Ward |
| Rona Arkle | Environment Agency |
| Richard Griffiths | IoACC Twrcelyn Ward |
| Julia Frost | Natural Resource Wales |
| Gwyn Hughes | EPO, IoACC |
| Dylan Williams | Regulation & Economic Development, IoACC |
| Timothy Poole | Campaign for the Protection of Rural Wales (CPRW) |
| J H Jones | Mechell Community Council |
| Sue Scott | Anglesey Federation Women's Institute |
| Heidi Goldsack | North Wales Police |
| Cllr Richard Owen Jones | IoACC Twrcelyn Ward |
| Aled Williams | Wylfa Waste Manager, Magnox |

Site Stakeholder Group

**1 Welcome and receive apologies for absence**

The Chair welcomed all to the meeting at 3.15pm. Apologies were noted as above. He welcomed members from both Rhosybol and Llaneilian Community Councils to their first meeting. He also welcomed Rhun ap Iorwerth the Island's Assembly Member.

**2. Election of Chair and Vice Chair**

Jill Callander, SSG Secretariat Co-ordinator noted that two nominations had been received and as there was no challenge to either of these nominations, Cllr Aled Morris Jones would remain as Chair with Cllr Derek Owen would replace Cllr G Winston Roberts as Vice Chair. The Chair wished to thank Cllr G W Roberts for his support and wished Cllr D Owen well in office.

**3. Approval of minutes of the meeting held 31 January 2019**

The minutes had been circulated prior to the meeting. Cllr G W Roberts proposed that the minutes were correct and the proposal was seconded by Cllr Ken Hughes. The minutes were received and accepted as a true record.

**4. Matters arising from the previous minutes**

Cestyll Gardens – The Chair noted that discussions were ongoing between the NDA and the National Trust. Enid Jones enquired as to why some trees, that provided shelter in the gardens, had been cut down. **ACTION - AMJ agreed to enquire further in order to provide an accurate response.**

Cllr Dafydd Griffiths requested an update on the Holliday Report. The Chair noted that legal obligations as well as Mr Holliday's ill-health have delayed publication.

**5. SSG Chairman's Report**

The Chair gave an overview of his activities since the last meeting and drew particular attention to:

- The NDA National Stakeholder Summit at Coleg Menai 9 & 10 of July 2019 - first time the NDA Summit has been held on Ynys Mon. A very successful event when delegates far and wide were able to see the resources here on Anglesey.
- Discussions ongoing with NDA regarding the future stewardship of Cestyll Gardens, Cemaes.
- Attended Magnox socio-economic scheme grant funding panel meetings.
- Attended briefings with the Wylfa Site Director
- Instigated the drafting of a Magnox, National UK covenant, the social licence to operate in the communities surrounding the various sites, in my role as Chair of the UK NDA SSG Forum.

**6. Wylfa Site Director's Report**

Stuart Law (SL) presented his report. Copies of the report had been forwarded to SSG members and were also available at the meeting. In summary, Mr Law referred to:

**Site operations and key projects**

SL reported that the defuelling programme forecast completion dates were reset in February as:

- Reactor 2 empty of spent fuel end July 2019 (achieved 13 June)
- Reactor 1 empty of spent fuel end August 2019

All spent fuel off site end September 2019
ONR fuel free verification declaration end October 2019.
He noted that defuelling performance has excelled throughout the period with many milestones met as the programme nears its conclusion.

**Legacy waste reduction**

A programme of work is underway to remove redundant ISO containers, portacabins and equipment from across the site that accumulated during operational years. Teams have been mobilised to safely dispose of this legacy waste over the coming months, most of which will be managed in-house with minimal Tier 2 contractor partner support.

**Environment, Health, Safety, Security and Quality (EHSS&Q)**

Total recorded incident rate (TRIR): 0.00
Days away case rate (DACR): 0.00
No of days since a lost time accident: 421
On 10 July 2019, Wylfa Site achieved the delivery of one year of work without a Lost Time Accident. This is an excellent achievement and means that the TRIR and DACR are both zero.

**Visits**

The Magnox MD and Deputy MD visited in May to review performance on the fuel route. It was an excellent visit and they were very appreciative of the hard work and commitment given to complete the defuelling programme.

**People**

On 21 August there were 288 employees and 22 Agency Supplied Workers on site (not including Security or Magnox Support Office staff based at Wylfa). The collective consultation phase of the staff transition process from the defuelling phase to the care and maintenance preparation phase structure began in February 2019. The Individual consultation phase, where staff recorded their preference to stay, transfer to another site or leave, was completed in May following which the redundancy selection process was conducted and letters issued. 85% of the workforce have been given their first choice and where individuals wish continued employment in Magnox, every effort is ongoing to offer alternative options eg: transfers to another Magnox site. Going forward there will be 175 employees on site in the new structure effective from 1 December.

The main focus of work will be post operational clean out and hazard reduction. For

example draining the oil from the fuelling machines and transporter systems. A total 88 tonnes of redundant equipment had recently been removed from site, including 18 portacabins two of which were donated to Cemaes FC. There are 184 buildings on site now, but when the site enters the Care & Maintenance phase in 2026 there will be just three: the reactor equipment building and the dry store cell four and five buildings.

**Question and Answer session**

Cllr G O Jones wished to thank SL for the site visit undertaken by SSG members preceding the meeting. He stated that it was good to see that the highest degree of safety remains part of the site's culture. He also valued the utilisation of local companies and skills whenever possible. Cllr Jones enquired as to how long the workforce of 175 would be maintained. SL noted that this was dependent on NDA strategy and the funding profile; however, he stated that it was his strategy to utilise as many as possible but that some aspects of the work may not be managed in-house such as demolition and asbestos removal.

Mr Law was thanked for his detailed update report.

**7. Nuclear Decommissioning Authority Update**

Mr J Jenkin was welcomed to the meeting and referred to the following:-

- NDA has announced funding of £495,000 to help support the County Council's North Anglesey Economic Regeneration Plan and create new economic opportunities on the island. This funding will contribute to measures aimed at boosting business activity, the supply chain and employment, increasing tourism, improving transport and infrastructure and reviving the High Street. Also noted an increased contribution to the Capel Bethlehem project (£300k).
- Magnox now a subsidiary company of the NDA with Gwen Parry-Jones appointed as CEO.
- Confirmed that the judicial review of the Holliday Report remains ongoing.

**Question and Answer session**

Cllr Dafydd Griffiths referred to the Annual Review of Accounts for 2018-19 and in particular Q2 which refers to the end of year achievements. He enquired as to how these targets can be achieved in light of the significant risks identified within the Holliday Report. JJ stated that he had not yet seen this particular reference, however, he would report back on this issue at the next SSG meeting. **ACTION – JJ to report back.**

Cllr K Hughes highlighted that the NDA spoke to SSG Chairs and Vice Chairs that looked at reports to consider a change in decommissioning Strategy. JJ commented that a high level business case had been presented to the NDA Board for consideration and a more detailed Business Case would be needed for Government approval.

Cllr G W Roberts wished to congratulate the NDA on their first successful summit on Anglesey. He also enquired as to the capital/revenue ratio of the £495,000 North Anglesey

Economic Regeneration Plan funding. JJ stated that the funding could be both and that it was to support the North Anglesey Regeneration projects. GWR hoped that most would be capital not revenue and reiterated his previous comments at this meeting that not enough media promotion is given to this invaluable funding.

The Chair went on to welcome Bill Hamilton to the meeting in his new role as Communications and Stakeholder Relations Director for Magnox. Mr Hamilton stated that Socio-Economic development was part of his remit and that he looked forward to working with all SSG members.

T Conway stated that he did not consider that the reactor equipment building's cladding was fit for another 50 years. SL replied that the reactor roof was redone five years ago, cladding is subject to regular maintenance within the Lifetime Plan.

T Conway asked if there were any plans to reduce the height of the reactor equipment building. SL replied that there aren't any plans for this.

T Conway enquired as to when the jetty and green navigator light will be removed. SL confirmed that all this work forms part of the Lifetime Plan, and that the work involved is ongoing and the SSG will be updated accordingly.

## 8. Office for Nuclear Regulation Update

Mr Ian Dallas was welcome to his first meeting of the SSG. He referred to the report for the period 1 January – 30 June 2019 which had been previously circulated to members. The following was noted:-

**Inspections**

The ONR carried out the following inspections at Wylfa:
LC 10 Training
LC 12 Duly authorised and other suitably qualified and experienced persons.
LC 13 Nuclear Safety Committee
LC 24 Operating instructions
LC 25 Operational records
LC 28 Examination, inspection, maintenance and testing
LC 32 Accumulation of radioactive waste
LC 34 Leakage and escape of radioactive material and radioactive waste
LC 36 Organisational capability
and stated that the ONR judged the arrangements made and implemented by the site in response to safety requirements to be adequate in the areas inspected.

**Other work**

- ONR's site inspector attended the Welsh region emergency planning consultative committee meeting that provides a forum for those agencies with responsibilities under Wylfa and Trawsfynydd's off-site emergency plan.
- ONR met Wylfa senior leadership team to discuss Wylfa's transition into

"contingency arrangements" following fuel free verification of the Wylfa site.

- ONR has written to all nuclear licensees to explain our expectations during the 12 month transition period concerning compliance with these new regulations.
- ONR's site inspector held a planned meeting with safety representatives, to support their function of representing employees and receiving information on matters affecting their health, safety and welfare at work.

**Question and Answers Session**
None received

**9. Natural Resources Wales update**
No representative in attendance but members received and accepted the report provided within the papers.

**10. Wylfa Waste Management update**
Mr Law provided a brief update during Item 6 recorded above

**11. Magnox socio-economic scheme update**
Mair Jones gave a short presentation on the achievements of the socio-economic scheme. She noted that seven applications have been supported from communities surrounding Wylfa site this financial year. A total of £102,571 had been allocated through the scheme. An additional £895,000 NDA direct funding has also been committed to the area with £400,000 for Menter Môn's Morlais Tidal Project and £495,000 to Isle of Anglesey County Council to deliver the North Anglesey Regeneration Plan.

Groups that have benefited from the **Good Neighbour level funding** are:

- Cemaes Bay football Club- received £484 to purchase training equipment and a burger grill which will assist with raising funds for the club during their home matches.
- Môntage, Anglesey Writers – Following a successful event in 2017, Môntage are holding a second Writing Festival, 9 November, in Ysgol David Hughes Menai Bridge. The group received £406 towards tutor costs for seven literature workshops and publicity materials.
- Cemaes Carnival were also awarded £901 towards reusable Magnox branded vinyl banners, Magnox branded high-viz tabards for the carnival marshals and 24 plastic chairs for visitors inside the marquee.
- Cybi Striders had another successful annual 5k event at Holyhead Breakwater Park in July. They received £130 from the scheme to purchase locally supplied wooden carved trophies for the participants.

Update on the larger, ongoing transformational projects supported:

- Môn Communities Forward - On 28 June, Magnox attended the official opening of Môn Communities Forward's (Môn CF) refurbished offices in Holyhead. Môn CF received Welsh Government funding to purchase their current office building on the

high street along with the old Cybi Electrical building to re-house the Training Academy in the town centre. Magnox funding supported the transition of the Academy with £300k from the Socioeconomic Scheme over three years.

- NDA directly funded: Menter Mon - secured a further £400,000 from the scheme over the next two years for the second phase of the Morlais Tidal Energy Demonstration Zone Project. They received £300,000 Magnox funding previously for pre-licencing, feasibility studies and consent work in preparation to develop the zone, where they will manage and sub-let areas to Global Tidal Technology developers. Magnox funding assisted the project successfully securing almost £5m WEFO (Welsh European Funding Office) and EU funding. This next phase will put the necessary infrastructure in place for developers of tidal stream energy converters to test their technology on a commercial scale. The NDA direct funding for the two year consent and licensing process has attracted £486,000 match funding from WEFO. This will see around £29m of investment during the main build and development phase and ensure the project is shovel ready by January 2021 and operational by the end of 2022. This will enable tidal developers to deploy their turbines from the zone and connect to Grid infrastructure. This allied with grid connection agreements, supply chain activity and commitment from the Global Technology Developers is ensuring Anglesey is the leading location for tidal stream energy.
- Isle of Anglesey County Council - NDA's pledge of £495,000 for North Anglesey Regeneration Plan. Last year, as part of the Energy Island Programme Phase 3, Isle of Anglesey County Council (IACC) commissioned a survey for North Anglesey. With £38,500 Magnox funding, it formed the preparation of a much needed Regeneration Plan for the area. With over 600 responses, the results highlighted a set of priorities viewed by the local communities. The plan also considered the suspended operation of Wylfa Newydd, the closure of Rehau, along with the completion of the defuelling phase here at Wylfa. The following themes were identified:

    - Support jobs and businesses
    - Develop tourism
    - Improve the high street/ retail/ tackle empty buildings
    - Improve transport/ road infrastructure
    - Make use of coastal areas/ heritage/ culture assets
    - Make use of disused railway line and old industrial sites

  With match funding from IoACC and the Welsh Government a total of £1.01m will be invested in North Anglesey over the next three years.

  Previous Magnox funding of £400,000 invested through IoACC has leveraged over £24m in other areas of Anglesey, with projects such as the Holyhead Port; Llangefni link road; new business units in Llangefni, all occupied with local businesses and 10 business units currently being built in Holyhead.

**Question and Answer Session**
None raised

## 12. Open Forum Question and Answer Session

TC also wished, as a representative of this meeting, to record that he deplores the decision of the Government and NDA regarding the decommissioning of Thorpe. The Chair acknowledged Mr Conway's personal view which will be relayed to the NDA.

## 13. Any Other Business

The Chair welcomed Ifer Gwyn as Horizon's representative on the SSG. Mr Ifer Gwyn thanked the Chair and updated members on the Wylfa Newydd position. He noted that there remained 20 members of staff working for Horizon located both at site and in offices in Gloucester. Steve Roberts, also in attendance and based at site, is the Site Supervisor. He stated that judgement on the Development Consent Order application is expected 24.10.19. The Chair confirmed that updates from Horizon will be a standing agenda item for this group.

The Vice Chair thanked the Site Director for the site tour in the morning.

Cllr Ken Hughes congratulated the Chair on being re-elected and for his presentation at the NDA Summit.

G W Roberts complained about the poor sound quality in the room. **ACTION – microphone to be available at future meetings.**

The Chair thanked all for their attendance and closed the meeting at 4:30pm

**Dates for future meetings – 27 February 2020 and 24 September 2020**

Site Stakeholder Group

**Cyfarfod Grŵp Rhanddeiliaid Safle Wylfa (SSG) 12 Medi 2019**
**Crynodeb o'r pwyntiau allweddol**

1. Darllenwyd yr enwebiadau ac fe etholwyd y Cadeirydd, y Cyng. Aled Morris Jones, a'r Is-gadeirydd, y Cyng. Derek Owen, yn ddiwrthwynebiad.

2. Rhoddodd y Cadeirydd ddiweddariad i'r aelodau ar ei weithgareddau ers 31 Ionawr mewn 2019 perthynas â'r Grŵp Rhanddeiliaid. Cyfeiriodd at y canlynol:

   - Uwchgynhadledd Rhanddeiliaid Cenedlaethol yr NDA yng Ngholeg Menai ar 9 a 10 Gorffennaf 2019. Y tro cyntaf i'r uwchgynhadledd gael ei chynnal ar Ynys Môn. Roedd yn ddigwyddiad llwyddiannus lle'r oedd cyfle i gynadleddwyr o bell ac agos weld adnoddau Ynys Môn.
   - Mae'r trafodaethau â'r NDA yn mynd rhagddynt ynghylch stiwardiaeth Gerddi Cestyll, Cemaes yn y dyfodol.
   - Mynychodd gyfarfodydd cyllido cynllun economaidd-cymdeithasol Magnox
   - Mynychodd gyfarfodydd briffio â Chyfarwyddwr Safle Wylfa.
   - Yn fy rôl fel Cadeirydd Fforwm SSG NDA y DU, rhoddais gychwyn ar ddrafftio cyfamod cenedlaethol y DU - Magnox, sef y drwydded gymdeithasol i weithredu mewn cymunedau o amgylch safleoedd amrywiol.
   - Yr aelodau newydd a oedd yn bresennol yn cynrychioli Cynghorau Cymuned Rhosybol a Llaneilian.

3. Cyflwynodd Stuart Law Adroddiad Cyfarwyddwr y Safle gan dynnu sylw arbennig at:

   - Gweithrediadau safle a phrosiectau allweddol
   - Trawsnewid y safle o wagio tanwydd i'r cyfnod 'Paratoadau Gofal a Chynnal a Chadw'.

4. Cyflwynwyd Adroddiad NDA gan Jonathan Jenkin.

5. Cyflwynwyd Adroddiad ONR gan Ian Dallas.

6. Cyflwynodd Mair Jones ddiweddariad ar dderbynwyr cynllun economaidd-cymdeithasol Magnox

.

**Cofnodion Grŵp Rhanddeiliaid Safle Wylfa (SSG)**
**Dydd Iau 12 Medi 2019, Neuad Bentref David Hughes, Cemaes**

**Presennol:**

| | |
|---|---|
| Y Cyng. Aled M Jones | CSYM Ward Twrcelyn a Chadeirydd y Grŵp Rhanddeiliaid |
| Stuart Law | Cyfarwyddwr Safle Wylfa, Magnox |
| Mair Jones | Arweinydd Economaidd-Cymdeithasol Magnox, Cymru a'r Alban |
| Michelle Humphreys | Arweinydd Cyfathrebu Rhanbarthol Magnox, Cymru |
| Y Cyng. Dafydd Griffiths | Cyngor Cymuned Llaneilian |
| Cyng John Griffiths | Cyngor Cymuned Llaneilian |
| Bill Hamilton | Cyfarwyddwr Cyfathrebu a Chysylltiadau Rhanddeiliaid, Magnox |
| Roy Chape | Dŵr Cymru |
| Enid Jones | Merched y Wawr |
| Y Cyng. Derek Owen | Cyngor Cymuned Llanbadrig |
| Y Cyng. Gwilym O Jones | CSYM |
| Y Cyng. Gwilym Morris | Cyngor Cymuned Rhosybol |
| Mark Elsworth | Magnox |
| Y Cyng. Gareth W Roberts | Cyngor Tref Amlwch |
| Y Cyng. Ken Hughes | CSYM Ward Talybolion |
| Y Cyng. Gordon Warren | Cyngor Tref Amlwch |
| Y Cyng. John Griffiths | CSYM |
| Ifer Gwyn | Ynni Niwclear Horizon |
| Steve Roberts | Ynni Niwclear Horizon |
| Ian Dallas | ONR |
| Tom Conway | Cymdeithas Cyn weithwyr Wylfa |
| Dylan Jones | CSYM |
| Jonathan Jenkin | NDA |
| Rhun ap Iorwerth | Aelod Cynulliad |
| Ann Llwyd | Cyfieithydd – Cymen |
| Sydna Roberts | Cofnodydd – Cymen |

**Ymddiheuriadau:**

| | |
|---|---|
| Llinos M Huws | CSYM Ward Talybolion |
| Rona Arkle | Asiantaeth yr Amgylchedd |
| Richard Griffiths | CSYM Ward Twrcelyn |
| Julia Frost | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Gwyn Hughes | EPO, CSYM |
| Dylan Williams | Rheoleiddio a Datblygu Economaidd, CSYM |
| Timothy Poole | Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig (CPRW) |
| J H Jones | Cyngor Cymuned Mechell |
| Sue Scott | Ffederasiwn Sefydliad y Merched Ynys Môn |
| Heidi Goldsack | Heddlu Gogledd Cymru |
| Y Cyng. Richard O Jones | CSYM Ward Twrcelyn |
| Aled Williams | Rheolwr Gwastraff Wylfa, Magnox |

Site Stakeholder Group

1 **Croeso ac ymddiheuriadau**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod am 3.15pm. Nodwyd yr ymddiheuriadau fel yr uchod. Croesawodd yr aelodau o Gynghorau Cymuned Rhosybol a Llaneilian i'w cyfarfod cyntaf. Croesawodd hefyd Aelod Cynulliad yr ynys Rhun ap Iorwerth.

2. **Ethol Cadeirydd ac Is-gadeirydd**

Nododd Jill Callander, Cydlynydd Ysgrifenyddiaeth SSG, bod dau enwebiad wedi eu derbyn a chan nad oedd unrhyw her i'r enwebiadau hyn y byddai'r Cyng. Aled Morris Jones yn parhau fel Cadeirydd gyda'r Cyng. Derek Owen yn cymryd lle'r Cyng. G Winston Roberts fel Is-gadeirydd. Diolchodd y Cadeirydd i'r Cyng. G W Roberts am ei gefnogaeth a dymunodd yn dda i'r Cyng. D Owen yn ei swydd.

3. **Derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 31 Ionawr 2019**

Roedd y cofnodion wedi eu rhannu cyn y cyfarfod. Cynigiodd y Cyng. G W Roberts fod y cofnodion yn gywir ac eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Ken Hughes. Derbyniwyd y cofnodion fel gwir gofnod.

4. **Materion yn codi o'r cofnodion blaenorol**

Gerddi Cestyll– Nododd y cadeirydd bod trafodaethau'n mynd rhagddynt rhwng yr NDA a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol. Holodd Enid Jones pam fod rhai coed, o oedd yn rhoi cysgod yn y gerddi, wedi eu torri i lawr. **GWEITHREDU – cytunodd AMJ i holi ymhellach er mwyn darparu ymateb cywir.**

Gwnaeth y Cyng. Dafydd Griffiths gais am ddiweddariad ar Adroddiad Holliday. Nododd y Cadeirydd bod rhwymedigaethau cyfreithiol yn ogystal ag afiechyd Mr Holliday wedi gohirio cyhoeddi'r adroddiad.

5. **Adroddiad Cadeirydd SSG**

Rhoddodd y Cadeirydd ddiweddariad i'r aelodau ar ei weithgareddau ers 31 Ionawr 2019 mewn perthynas â'r Grŵp Rhanddeiliaid. Cyfeiriodd at y canlynol:

- Uwchgynhadledd Rhanddeiliaid Cenedlaethol yr NDA yng Ngholeg Menai ar 9 a 10 Gorffennaf 2019. Y tro cyntaf i'r uwchgynhadledd gael ei chynnal ar Ynys Môn. Roedd yn ddigwyddiad llwyddiannus lle'r oedd cyfle i gynadleddwyr o bell ac agos weld adnoddau Ynys Môn.
- Mae'r trafodaethau â'r NDA yn mynd rhagddynt ynghylch stiwardiaeth Gerddi Cestyll, Cemaes yn y dyfodol.
- Mynychodd gyfarfodydd cyllido cynllun economaidd-cymdeithasol Magnox
- Mynychodd gyfarfodydd briffio â Chyfarwyddwr Safle Wylfa.
- Yn fy rôl fel Cadeirydd Fforwm SSG NDA y DU, rhoddais gychwyn ar ddrafftio cyfamod cenedlaethol y DU - Magnox, sef y drwydded gymdeithasol i weithredu mewn cymunedau o amgylch safleoedd amrywiol.
- Yr aelodau newydd a oedd yn bresenn ol yn cynrychioli Cynghorau Cymuned Rhosybol a Llaneilian.

6. **Adroddiad Cyfarwyddwr Safle Wylfa**

Cyflwynodd Stuart Law (SL) ei adroddiad. Roedd copïau o'r adroddiad wedi eu hanfon at aelodau'r SSG ac roeddent ar gael yn y cyfarfod. Yn gryno, cyfeiriodd Mr Law at y canlynol:

**Gweithrediadau safle a phrosiectau allweddol**

Adroddodd SL fod rhagolwg y dyddiadau o ran cwblhau'r rhaglen gwagio tanwydd wedi ei ailosod yn Chwefror i:

- Adweithydd 2 yn wag o danwydd a ddefnyddiwyd erbyn diwedd Gorffennaf 2019 (cyflawnwyd 13 Mehefin)
- Adweithydd 1 yn wag o danwydd a ddefnyddiwyd erbyn diwedd Awst 2019

Yr holl danwydd a ddefnyddiwyd oddi ar y safle erbyn diwedd Medi 2019
Datganiad dilysu di-danwydd yr ONR erbyn diwedd Hydref 2019.
Nododd bod perfformiad gwagio tanwydd wedi rhagori trwy gydol y cyfnod gyda llawer o gerrig milltir yn cael eu cyrraedd wrth i'r rhaglen ddod at ei therfyn.

**Lleihau gwastraff etifeddiaeth**
Mae rhaglen waith ar y gweill i gael gwared â chynwysyddion ISO, cabanau symudol ac offer diangen, a gronnodd yn ystod y blynyddoedd gweithredol, o bob rhan o'r safle. Mae timau wedi eu cynnull i waredu'r gwastraff etifeddiaeth hwn yn ddiogel dros y misoedd nesaf, a bydd y rhan fwyaf ohono'n cael ei reoli'n fewnol heb fawr o gefnogaeth gan gontractwyr partner Haen 2.

**Yr amgylchedd, Iechyd, Diogelwch, ac Ansawdd (EHSS&Q)**
Cyfanswm y gyfradd digwyddiadau a gofnodwyd (TRIR): 0.00
Cyfradd achosion dyddiau i ffwrdd (DACR): 0.00
Nifer o ddyddiau ers damwain colli amser: 421
Ar 10 Gorffennaf 2019, cyflawnodd Safle Wylfa flwyddyn o waith heb Ddamwain Colli Amser. Mae hwn yn gyflawniad rhagorol sy'n golygu bod y TRIR a'r DACR yn sero.

**Ymweliadau**
Fis Mai, ymwelodd Rheolwr Gyfarwyddwr a Dirprwy Reolwr Gyfarwyddwr Magnox i adolygu perfformiad y llwybr tanwydd. Roedd yn ymweliad ardderchog ac roeddent yn gwerthfawrogi'n arw'r gwaith caled a'r ymrwymiad a wnaed i gwblhau'r rhaglen gwagio tanwydd.

**Pobl**
Ar 21 Awst roedd 288 o weithwyr a 22 o Weithwyr Asiantaeth ar y safle (ddim yn cynnwys staff Diogelwch na staff Swyddfa Gefnogi Magnox sydd wedi ei lleoli yn Wylfa). Yn Chwefror 2019, fe ddechreuodd y cam ymgynghori ar y cyd y broses o drosglwyddo staff o'r cam gwagio tanwydd i strwythur y cyfnod gofal a pharatoi cynnal a chadw. Cwblhawyd y cyfnod ymgynghori unigol, lle'r oedd staff yn mynegi eu dewis i aros , trosglwyddo i safle arall neu adael, ym Mai, ac yn dilyn hynny cynhaliwyd y broses dewis diswyddo ac anfonwyd llythyrau. Rhoddwyd eu dewis cyntaf i 85% o'r gweithlu ac yn yr achosion lle'r oedd unigolion yn dymuno gweithio i Magnox, gwneir pob ymdrech i gynnig opsiynau amgen e.e: trosglwyddo i safle Magnox arall. Wrth symud ymlaen bydd 175 o weithwyr ar y safle o 1 Rhagfyr ymlaen.

Bydd y gwaith yn canolbwyntio'n bennaf ar lanhau ôl weithredu a lleihau peryglon. Er enghraifft draenio'r olew o'r peiriannau tanwydd a'r systemau cludo. Yn ddiweddar symudwyd 88 tunnell o offer diangen o'r safle, yn cynnwys 18 caban symudol a rhoddwyd dau ohonynt i Glwb Pêl-droed Cemaes. Mae 184 o adeiladau ar y safle nawr, ond pan fydd y safle'n symud i'r cyfnod Gofal a Chynnal a chadw yn 2026 dim ond tri fydd: adeilad offer yr adweithydd ac adeilad pedwar a phump y gell storfa sych.

**Sesiwn Holi ac Ateb**
Diolchodd y Cyng. G O Jones i SL am yr ymweliad safle ar gyfer aelodau'r Grŵp Rhanddeiliaid a gynhaliwyd cyn y cyfarfod. Nododd mai da oedd gweld bod y lefelau diogelwch uchaf yn parhau i fod yn rhan o ddiwylliant y safle. Roedd hefyd yn gwerthfawrogi defnyddio cwmnïau a sgiliau lleol lle bo'n bosibl. Holodd y Cyng. Jones am ba hyd y byddai'r gweithlu o 175 yn cael ei gadw. Nododd

SL fod hynny'n ddibynnol ar strategaeth yr NDA a'r proffil cyllido; fodd bynnag, nododd mai ei strategaeth ef yw defnyddio cymaint â phosibl ohonynt ond efallai na chaiff rhai agweddau ar y gwaith eu rheoli'n lleol megis dymchwel a symud asbestos.

Diolchwyd i Mr Law am ei ddiweddariad manwl.

**7. Diweddariad yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear**

Croesawyd Mr J Jenkin i'r cyfarfod a chyfeiriodd at y canlynol:

- Mae'r NDA wedi cyhoeddi cyllid o £495,000 er mwyn helpu i gefnogi Cynllun Adfywio Economaidd Gogledd Ynys Môn y Cyngor Sir a chreu cyfleoedd economaidd newydd ar yr ynys. Bydd yr arian hwn yn cyfrannu at fesurau gyda'r nod o hybu gweithgareddau busnes, y gadwyn gyflenwi a chyflogaeth, cynyddu twristiaeth, gwella trafnidiaeth a seilwaith ac adfywio'r Stryd Fawr. Nodwyd hefyd gynnydd yn y cyfraniad i brosiect Capel Bethlehem project (£300k).
- Mae Magnox bellach yn is-gwmni i'r NDA gyda Gwen Parry-Jones wedi ei phenodi'n Brif Swyddog Gweithredol.
- Cadarnhaodd fod yr adolygiad barnwrol Adroddiad Holliday'n parhau i fynd rhagddo.

**Sesiwn Holi ac Ateb**

Cyfeiriodd y Cyng. Dafydd Griffiths at yr Adolygiad Cyfrifon Blynyddol ar gyfer 2018-19 ac yn benodol at C2 sy'n cyfeirio ar gyflawniadau diwedd blwyddyn. Gofynnodd sut gellir cyflawni'r targedau hyn yng ngoleuni'r risgiau arwyddocaol a nodwyd yn Adroddiad Holliday. Nododd JJ nad oedd wedi gweld y cyfeiriad penodol hwn eto, fodd bynnag, byddai'n adrodd yn ôl ar y mater hwn yng nghyfarfod nesaf y Grŵp Rhanddeiliaid. **GWEITHREDU – JJ i adrodd yn ôl.**

Amlygodd y Cyng. K Hughes fod yr NDA wedi siarad â Chadeirydd ac Is-gadeirydd yr SSG a edrychodd ar adroddiadau i ystyried newid yn y Strategaeth ddatgomisynu. Dywedodd JJ fod achos busnes lefel uchel wedi'i gyflwyno i Fwrdd yr NDA i'w ystyried ac y byddai angen Achos Busnes manylach i'w gymeradwyo gan y Llywodraeth.

Llongyfarchodd y Cyng. G W Roberts yr NDA ar eu hwuchgynhadledd lwyddiannus gyntaf ar Ynys Môn. Holodd hefyd am y gymhareb cyfalaf/refeniw mewn perthynas â'r cyllid o £495,000 ar gyfer Cynllun Adfywio Gogledd Ynys Môn. Nododd JJ y gallai'r cyllid fod y naill neu'r llall a'i fod ar gael i gefnogi prosiectau Adfywio Gogledd Ynys Môn. Nododd GWR ei fod yn gobeithio y byddai'r rhan fwyaf o'r cyllid yn gyfalaf nid refeniw ac ailadroddodd ei sylwadau blaenorol yn y cyfarfod hwn na roddir digon o sylw ar y cyfryngau i'r cyllid amhrisiadwy hwn.

Croesawodd y Cadeirydd Bill Hamilton i'r cyfarfod yn ei rôl newydd fel Cyfarwyddwr Cyfathrebu a Chysylltiadau Rhanddeiliaid Magnox. Dywedodd Mr Hamilton fod datblygiad econmaidd-gymdeithasol yn rhan o'i gylch gwaith a'i fod yn edrych ymlaen at weithio gyda holl aelodau'r SSG.

Nododd T Conway nad oedd yn ystyried bod cladin yr adeilad offer adweithydd yn addas am 50 mlynedd arall. Atebodd SL gan ddweud bod to'r adweithydd wedi ei ail-wneud bum mlynedd yn ôl a bod cladin yn rhan o drefniadau cynnal a chadw rheolaidd yn y Cynllun Gydol Oes.

Gofynnodd T Conway a oedd unrhyw gynlluniau i leihau uchder yr adeilad offer adweithydd. Atebodd SL nad oedd unrhyw gynlluniau ar gyfer hyn.

Holodd T Conway pryd y bydd y lanfa a'r golau llywio gwyrdd yn cael eu tynnu. Cadarnhaodd SL

fod yr holl waith hwn yn rhan o’r Cynllun Gydol Oes a bod y gwaith dan sylw yn parhau ac y bydd yr SSG yn derbyn diweddariadau yn unol â hynny.

**8. Diweddariad y Swyddfa Rheoleiddio Niwclear (ONR)**

Croesawyd Mr Ian Dallas i’w gyfarfod cyntaf o’r Grŵp Rhanddeiliaid. Cyfeiriodd at yr adroddiad am y cyfnod 1 Ionawr – 30 Mehefin 2019 a oedd wedi ei rhannu â’r aelodau’n flaenorol. Nodwyd y canlynol:

**Archwiliadau**

Ymgymerodd yr ONR â’r archwiliadau canlynol yn Wylfa:
LC 10 Hyfforddiant
LC 12 Unigolion awdurdodedig ac eraill sydd â chymwysterau a phrofiad addas.
LC 13 Pwyllgor Diogelwch Niwclear
LC 24 Cyfarwyddiadau gweithredu
LC 25 Cofnodion gweithredol
LC 28 Archwilio, arolygu, cynnal a chadw a phrofi
LC 32 Cronni gwastraff ymbelydrol
LC 34 Deunydd a gwastraff ymbelydrol yn gollwng neu’n dianc
LC 36 Gallu sefydliadol
a nodwyd bod yr ONR o’r farn bod y trefniadau a wneir ac a weithredir er mwyn ymateb i ofynion diogelwch yn ddigonol yn yr ardaloedd a archwiliwyd.

**Gwaith arall**

- Mynychodd arolygydd safle’r ONR gyfarfod o bwyllgor ymgynghorol cynllunio argyfwng rhanbarth Cymru. Mae’r pwyllgor yn darparu fforwm ar gyfer yr asiantaethau sydd â chyfrifoldebau dan gynllun argyfwng oddi ar y safle Wylfa a Thrawsfynydd.
- Cyfarfu ONR ag uwch dîm rheoli Wylfa i drafod trosglwyddo Wylfa i “drefniadau wrth gefn” yn dilyn dilysu safle Wylfa fel un di-danwydd.
- Mae’r ONR wedi ysgrifennu at bob trwyddedai niwclear i egluro yr disgwyliadau yn ystod y 12 mis o ran cydymffurfio hefo Rheoliadau (Embelydredd Parodrwydd am Argyfwng a Gwybodaeth Gyhoeddus) 2019 newydd.
- Cynhaliodd arolygydd ONR gyfarfod wedi’i gynllunio gyda chynrychiolwyr diogelwch, i gefnogi eu swyddogaeth o gynrychioli gweithwyr a derbyn gwybodaeth am faterion sy’n effeithio ar eu hiechyd, eu diogelwch a’u lles yn y gwaith.

**Sesiwn Holi ac Ateb**

Ni dderbyniwyd unrhyw gwestiynau

**9. Diweddariad Adnoddau Naturiol Cymru**

Nid oedd cynrychiolydd yn bresennol ond fe dderbyniodd yr aelodau’r adroddiad a ddarparwyd ar bapur.

**10. Diweddariad Rheoli Gwastraff Wylfa**

Cyflwynodd Mr Law ddiweddariad cryno yn ystod Eitem 6 a gofnodwyd uchod

**11. Diweddariad cynllun economiadd-cymdeithasol Magnox**

Cafwyd cyflwyniad byr gan Mair Jones ar lwyddiannau’r cynllun economaidd-cymdeithasol. Nododd bod saith cais gan gymunedau o amgylch Wylfa wedi eu cefnogi yn ystod y flwyddyn ariannol hon.

Site Stakeholder Group

Mae cyfanswm o £102,571 wedi ei ddyrannu drwy'r cynllun. Mae £895,000 ychwanegol o gyllid uniongyrchol gan yr NDA wedi ei ymrwymo i'r ardal gyda £400,000 ar gyfer Morlais, Prosiect Llanw Menter Môn a £495,000 i Gyngor Sir Ynys Môn weithredu Cynllun Adfywio Gogledd Ynys Môn.

Nodwyd y grwpiau canlynol fel rhai a elwodd o gynllun ariannu **Cymydog Da**:

- Clwb Pêl-droed Cemaes – derbyniodd y clwb £484 i brynu offer hyfforddi a gril i goginio byrgyrs a fydd yn gymorth wrth godi arian i'r clwb yn ystod eu gemau cartref.
- Môntage, Ysgrifenwyr Ynys Môn – Yn dilyn digwyddiad llwyddiannus yn 2017, mae Môntage yn cynnal ail Ŵyl Ysgrifennu ar 9 Tachwedd yn Ysgol David Hughes, Porthaethwy. Derbyniodd y grŵp £406 tuag at gostau tiwtoriaid ar gyfer saith gweithdy llenyddiaeth ac ar gyfer deunyddiau cyhoeddusrwydd.
- Derbyniodd Carnifal Cemaes £901 tuag at faneri finyl brand Magnox y gellir eu hail ddefnyddio, tabardau llachar brand Magnox ar gyfer swyddogion y carnifal a 24 o gadeiriau plastig ar gyfer ymwelwyr y tu mewn i'r babell fawr.
- Cafodd Cybi Striders ddigwyddiad 5k blynyddol llwyddiannus unwaith eto ym Mharc Morglawdd Caergybi fis Gorffennaf. Derbyniodd y clwb £130 gan y cynllun ar gyfer prynu gwobrau a gynhyrchwyd yn lleol, wedi eu cerfio o bren, ar gyfer y cystadleuwyr.

Diweddariad ar y prosiectau trawsnewidiol mwy a gefnogir:

- Cymunedau Ymlaen Môn (Môn CF) – Ar 28 Mehefin, mynychodd Magnox agoriad swyddogol swyddfeydd adnewyddedig Cymunedau Ymlaen Môn yng Nghaergybi. Derbyniodd Môn CF gyllid gan Lywodraeth Cymru i brynu eu swyddfa bresennol ynghyd â hen adeilad Cybi Electrical ar gyfer ail-leoli'r Academi Hyfforddi yng nghanol y dref. Cefnogodd gyllid Magnox drawsnewidiad yr academi gyda £300k o'r cynllun economaidd-cymdeithasol dros dair blynedd
- Cyllid uniongyrchol gan yr NDA: Sicrhaodd Menter Môn £400,000 pellach gan y cynllun dros y ddwy flynedd nesaf ar gyfer ail gyfnod Prosiect Parth Arddangos Egni'r Llanw Morlais. Yn flaenorol, derbyniodd Menter Môn gyllid o £300,000 ar gyfer rhagdrwyddedu, astudiaethau dichonolrwydd a gwaith cydsynio wrth baratoi i ddatblygu'r parth, lle byddant yn rheoli ac is-osod ardaloedd i ddatblygwyr Technoleg Llanw Fyd-eang. Fe gynorthwyodd cyllid Magnox lwyddiant y prosiect wrth sicrhau bron i £5m o gyllid gan WEFO (Swyddfa Cyllido Ewropeaidd Cymru) a'r UE. Bydd y cyfnod nesaf hwn yn gosod y seilwaith angenrheidiol fydd yn galluogi datblygwyr  trawsnewidwyr ynni llif llanw i brofi eu technoleg ar raddfa fasnachol. Mae'r cyllid uniongyrchol gan yr NDA dros ddwy flynedd ar gyfer y broses cydsynio a thrwyddedu wedi denu cyllid cyfatebol o £486,000 gan WEFO. Golyga hyn y bydd oddeutu £29m o fuddsoddiad yn ystod y prif gam adeiladu a'r cyfnod datblygu gan sicrhau y bydd y prosiect yn barod i'w adeiladu erbyn Ionawr 2021 ac yn weithredol erbyn diwedd 2022. Bydd hyn y galluogi datblygwyr ynni llanw i roi eu tyrbinau ar waith o'r parth a'u cysylltu â seilwaith y Grid. Mae hyn, ynghyd â chytundebau cysylltu â'r grid, gweithgareddau'r gadwyn gyflenwi ac ymrwymiad Datblygwyr Technoleg Fyd-eang yn sicrhau mai Ynys Môn yw'r prif leoliad ar gyfer ynni llif llanw.
- Cyngor Sir Ynys Môn – Addewid yr NDA o £495,000 ar gyfer Cynllun Adfywio Gogledd Ynys Môn. Y llynedd, fel rhan o Gam 3 Rhaglen Ynys Ynni, comisiynodd Cyngor Sir Ynys Môn (CSYM) arolwg ar gyfer Gogledd Ynys Môn. Gyda chyllid o £38,500 gan Magnox, bu'n fodd o baratoi Cynllun Adfywio mawr ei angen ar gyfer yr ardal. Gyda dros 600 o ymatebion, amlygodd y canlyniadau flaenoriaethau gan y cymunedau lleol. Rhoddodd y cynllun hefyd ystyriaeth i ohirio gweithredu Wylfa Newydd, cau Rehau, ynghyd â chwblhau'r cyfnod gwagio tanwydd yma yn Wylfa. Nodwyd y themâu canlynol:

- Cefnogi swyddi a busnesau
- Datblygu twristiaeth
- Gwella'r stryd fawr/ manwerthu/ mynd i'r afael ag adeiladau gwag
- Gwella trafnidiaeth/ seilwaith ffyrdd
- Gwneud defnydd o ardaloedd ar yr arfordir / treftadaeth/ asedau diwylliannol
- Gwneud defnydd o'r hen lein reilffordd a hen safleoedd diwydiannol

Gyda chyllid cyfatebol gan GSYM a Llywodraeth Cymru bydd cyfanswm o £1.01m yn cael ei fuddsoddi yng Ngogledd Ynys Môn dros y tair blynedd nesaf.

Mae cyllid blaenorol o £400,000 gan Magnox a fuddsoddwyd drwy GSYM wedi trosoli dros £24m mewn ardaloedd eraill yn Ynys Môn, gyda phrosiectau fel Porthladd Caergybi; ffordd gyswllt Llangefni; unedau busnes newydd yn Llangefni - pob un â busnes lleol ynddynt a 10 uned busnes yn cael eu hadeiladu yng Nghaergybi.

**Sesiwn Holi ac Ateb**
Ni dderbyniwyd unrhyw gwestiynau.

**12. Fforwm Agored Sesiwn Holi ac Ateb**
Fel cynrychiolydd y cyfarfod hwn, roedd TC hefyd yn dymuno cofnodi ei fod yn gresynu at benderfyniad y Llywodraeth a'r NDA ynghylch datgomisiynu Thorpe. Cydnabu'r cadeirydd farn bersonol Mr Conway a fydd yn cael ei chyfleu i'r NDA.

**13. Unrhyw Fater Arall**
Croesawodd y Cadeirydd Ifer Gwyn fel cynrychiolydd Horizon ar y Grŵp Rhanddeiliaid. Diolchodd Mr Ifer Gwyn i'r Cadeirydd a rhoddodd ddiweddariad i'r aelodau ar sefyllfa Wylfa Newydd. Nododd bod 20 aelod o staff yn parhau i weithio i Horizon wedi eu lleoli ar y safle ac yng Nghaerloyw. Steve Roberts, a oedd hefyd yn bresennol yn y cyfarfod ac sydd wedi ei leoli ar y safle, yw Goruchwyliwr y Safle. Nododd y disgwylir penderfyniad ar y cais am Orchymyn Cydsyniad Datblygu ar 24.10.19. Cadarnhaodd y Cadeirydd y bydd diweddariadau gan Horizon yn eitemau sefydlog ar agenda'r grŵp hwn.

Diolchodd yr Is-gadeirydd i Gyfarwyddwr y Safle am y daith o amgylch y safle yn y bore.

Llongyfarchodd y Cyng. Ken Hughes y Cadeirydd ar ei ail-ethol i'r gadair ac am ei gyflwyniad yn uwchgynhadledd yr NDA.

Cwynodd y Cyng. G W Roberts am ansawdd y sain yn yr ystafell. **GWEITHREDU – sicrhau bod microffon ar gael mewn cyfarfodydd yn y dyfodol.**

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu presenoldeb a chaeodd y cyfarfod am 4:30pm

**Dyddiadau'r cyfarfodydd nesaf – 27 Chwefror 2020 a 24 Medi 2020**